



Gwasanaeth Effeithiolrwydd a
Gwella Ysgolion Rhanbarthol Gogledd Cymru

Regional School Effectiveness &
Improvement Service for North Wales

Bwletin GwE

Canmoliaeth i GwE ★NEWYDD★

Cliciwch yma i weld clip fideo o'r Athro Donaldson yn canmol GwE am ein ffordd o weithio ar y cyd yn ystod cyfarfod o'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn y Senedd.

Cymedroli Cyfnod Allweddol 2 a 3 ★NEWYDD★

Diolch i'r rhai hynny ohonoch sydd wedi anfon manylion eich Arweinydd Clwstwr a'r dyddiadau ar gyfer cyfarfodydd CA2 a CA3. Mae GwE yn gofyn i bob clwstwr enwebu 'arweinydd asesu' ar gyfer CA2 a CA3. Eu rôl fydd sicrhau y rhennir gwybodaeth am y broses ag athrawon ac adrannau perthnasol y clwstwr. Byddwn yn ddiolchgar pe byddai'r rheiny sydd heb anfon yr wybodaeth eto yn anfon yr wybodaeth ar e-bost i helenwilliams@gwegogledd.cymru erbyn **dydd Gwener 15 Rhagfyr 2017**.

Cyfleoedd Hyfforddi Cynradd

Safoni, Cymedroli a'r Camau Nesaf yn y CS

★NEWYDD★

Cliciwch yma i weld rhestr o ddyddiadau a lleoliadau'r gweithdai cyfrwng Cymraeg. Cyhoeddir y manylion cofrestru maes o law. Cliciwch yma am restr o'r gweithdai Saesneg.

Cymhwysedd Digidol ★NEWYDD★

Mae'r system gofrestru ar gyfer cyrsiau cymhwysedd digidol bellach yn fyw. Cliciwch yma i weld yr holl gyrsiau hyd at ddiwedd Mawrth 2018.

Digwyddiad Dysgu Digidol ★NEWYDD★

Dyma gyfle gwyh i holl staff eich ysgol ddod i ddysgu mwy am y datblygiadau diweddaraf ym maes dysgu digidol mewn digwyddiad ar ôl ysgol. Cliciwch yma i gofrestru.

Arfarnu a Gwella Ansawdd Addysgu yn

Effeithiol Drwy Ddefnyddio Continua

Addysgu – Yr Offeryn Hunan Arfarnu i

Athrawon - Gareth Coombes

**HYFFORDDIANT AR GYFER HOLL BENAETHIAID NEU
ARWEINWYR DYSGU YSGOLION Y RHANBARTH**

Bwriad yr hyfforddiant yw cefnogi arweinwyr wrth fynd ati i wella addysgu ar gyfer dysgu mewn ffordd strwythuredig a chynaliadwy. Cliciwch yma i gofrestru.

Nodwch fod yr hyfforddiant yma drwy gyfrwng y Saesneg ond bydd y deunyddiau i gyd ar gael yn y Gymraeg.

Hyfforddiant Into Film

Mae Into Film a GwE yn cynnal cwrs creu ffilm ar gyfer athrawon CA2. Cliciwch yma i gofrestru.

Cyfleoedd Hyfforddi Uwchradd

Cemeg DIY yn y Dosbarth (CA3)

**DYDD IAU, 14 RHAGFYR 2017 – TECHNIQUEST, CAERDYDD –
2:00YP – 6:00YH**

Ddydd Iau 14 Rhagfyr fe'ch gwahoddir i wneud cais i fynychu gweithdai hanner diwrnod am ddim i athrawon gwyddoniaeth CA3 yn Techniquest, Caerdydd.

Dewch draw i ddarganfod ystod eang o weithgareddau ymarferol diogel y gallwch eu cynnal yn eich ystafell ddosbarth. Cliciwch yma am ragor o fanylion.

DPP i Gefnogi Cyflwyno Rhifedd ar Lefel 2 ac Elfennau o Lefel 3 yn y Dystysgrif Her Sgiliau (WBACC)

Bydd GwE yn cynnal dau fore o hyfforddiant Rhifedd.

Zoe Evans sy'n cyflwyno'r hyfforddiant, fydd yn seiliedig ar y PU, a chewch weld yn uniongyrchol sut y gellir defnyddio rhifedd yn effeithiol yn y PU.

Cliciwch yma am ragor o fanylion, neu yma i gofrestru.

Cyfleoedd Datblygu Proffesiynol

Rhaglen Hyfforddiant GwE i ANG Cynradd ac Uwchradd

Cyhoeddwyd dyddiadau hyfforddiant ANG a gynhelir gan GwE yn ystod tymor y gwanwyn a thymor yr haf 2018 ar wefan GwE. [Cliciwch yma](#).

Cynllun Cynorthwywyr Addysgu Lefel Uwch – CALU

Ydych chi am ennill statws CALU? Mae'r rownd nesaf yn cychwyn yn fuan.

Dewch i un o'r Sesiynau Gwybodaeth CALU ar gyfer Cynorthwywyr Addysgu a'u Penaethiaid/Rheolwyr, a gynhelir ar draws y rhanbarth rhwng 11 ac 16 Ionawr 2018.

Dilynwch y [ddolen](#) am ragor o wybodaeth, yn cynnwys dyddiadau a lleoliadau'r Sesiynau Gwybodaeth.

Gwybodaeth bwysig i CALUau a Chymorthyddion Dysgu ar draws Cymru

A. CYNHELIR CYNADLEDDAU CALU AR Y DYDDIADAU CANLYNOL:

- GwE – Dydd Gwener, 2 Mawrth 2018
- CCD / GCA – Dydd Llun, 5 Mawrth 2018
- ERW – Dydd Mawrth, 6 Mawrth 2018

Ni fydd unrhyw gost i fynychu'r gynhadledd a thelir costau llanw.

Am fanylion pellach, cysylltwch â'ch consortiwm rhanbarthol ar calu@gwegogledd.cymru os gwelwch yn dda neu ewch ar wefan eich consortiwm rhanbarthol.

B. TYMOR Y GWANWYN 2018

Darperir dwy raglen newydd ar draws Cymru ar gyfer Cymorthyddion Dysgu:

- Sefydlu ar gyfer cymorthyddion dysgu newydd
- Hyfforddiant cymorthyddion dysgu profiadol

Ni fydd unrhyw gost ynghlwm â'r rhaglenni a thelir costau llanw.

Am ragor o wybodaeth, yn cynnwys dyddiadau a lleoliadau, ewch ar [wefan eich consortiwm rhanbarthol](#).

Cyfleoedd Hyfforddi Eraill

Digwyddiadau Diogelwch Ar-lein ★NEWYDD★
Cliciwch yma i ddarganfod dyddiad a lleoliad digwyddiad diogelwch ar-lein sydd yn gyfleus i chi.

Newyddion

Ŵy, Chips a Nain

SIOE DEULUOL AM ANGHOFIO COFIO – GAN GWMNI'R FRÂN WEN

Bydd y cynhyrchiad Ŵy, Chips a Nain, sydd ar gyfer plant 7+ oed, yn teithio ledled Cymru yn ystod y gwanwyn.

[Cliciwch yma](#) am ragor o fanylion neu ewch i [wefan Cwmni'r Frân Wen](#).

Cyfle Olaf i Roi Adborth ar Gymwysterau TGAU

Ewch i [wefan](#) Cymwysterau Cymru am ragor o wybodaeth.

Newidiadau i Fesurau Perfformiad yng Nghyfnod Allweddol 4 sy'n Effeithio ar Gofrestru'n Gynnar

Ar 16 Hydref, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg [newidiadau i fesurau perfformiad Cyfnod Allweddol 4](#) o ganlyniad i gynnydd sylweddol yn nifer y dysgwyr sy'n sefyll arholiadau TGAU yn gynnar yng Nghymru. [Parhau i ddarllen...](#)

[Academi Genedlaethol Arweinyddiaeth Addysgol](#)

RHAGLEN AELODAU CYSWLLT ★NEWYDD★

Mae manylion am beilot y Rhaglen Aelodau Cyswllt wedi'u cyhoeddi ar [wefan Dysgu Cymru](#).

[Cliciwch yma](#) am ragor o fanylion.

[Camau-STEM](#)

Byddai Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn ddiolchgar iawn petaech cystal â chwblhau holiadur di-enw a byr iawn, ar gyfer CAMAU STEM erbyn **18 Rhagfyr 2017**, drwy'r [ddolen gyswllt hon](#).

Am ragor o fanylion, [cliciwch yma](#).

[Rhannu Rhagoriaeth Ledled Cymru](#)

Yn 2016-2017, barnodd Estyn fod 34 o ddarparwyr yn 'Rhagorol'. Dysgwch am strategaethau eu llwyddiant trwy [wyluo ein ffilm](#) a darllen eu hastudiaethau achos.

[Mynnwch ysbrydoliaeth!](#)

[Cwricwlwm i Gymru](#)

Mae [cwricwlwm ysgol newydd yn gofyn am ddiwylliant dysgu newydd](#). Mae'n dechrau yma.

Mae creu diwylliant dysgu ffyniannus mewn ysgolion ar draws Cymru yn hanfodol er mwyn cyflwyno ein cwricwlwm newydd yn llwyddiannus. [Canfyddwch fwy...](#)

[Rheoliadau Addysg \[Diwygiadau'n Ymwneud â Gwybodaeth Asesiadau Athrawon\] 2018](#)

Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru yn gofyn am sylwadau ar y newidiadau arfaethedig i'r defnydd a wneir o ddata asesiadau athrawon ar gael nawr. [Cliciwch yma](#).

[Cyhoeddi Deunyddiau Enghreifftiol Gwyddoniaeth ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 - 3](#)

Dyma'r cyntaf mewn cyfres a gynlluniwyd i ddarparu cymorth wrth asesu gwyddoniaeth ar ddiwedd Cyfnodau Allweddol 2 a 3. Nod y [deunyddiau enghreifftiol](#) hyn, y gwnaeth staff GwE helpu eu creu, yw cynorthwyo ysgolion ac athrawon wrth wneud asesiadau ar gyfer gwyddoniaeth ar ddiwedd Cyfnodau Allweddol 2 a 3.

[Cliciwch yma](#), am ragor o fanylion.

Cyhoeddiadau gan Kirsty Williams, Ysgrifennydd y Cabinet Dros

[Addysg ★NEWYDD★](#)

Dymuna GwE dynnu sylw ysgolion at y cyhoeddiadau isod a wnaeth Kirsty Williams, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg. Gweler isod.

[Rhwydwaith Cenedlaethol er Rhagoriaeth mewn Gwyddoniaeth a Thechnoleg](#)

Rydym yn falch o gyhoeddi bod Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg wedi lansio'r parth diweddaraf ar Hwb, sef y Rhwydwaith Cenedlaethol er Rhagoriaeth mewn Gwyddoniaeth a Thechnoleg.

Nod y parth newydd yw darparu un man canolog ar gyfer gwybodaeth, cynnwys ac ymchwil sy'n ddefnyddiol i bob ymarferydd gwyddoniaeth a thechnoleg. Bydd y rhwydwaith rhagoriaeth yn ceisio gwella sgiliau athrawon mewn gwyddoniaeth a thechnoleg, a gwella profiad disgyblion o'r pynciau hyn yn yr ysgol.

Gallwch fynd i'r parth [yma](#).

[Y Diweddaraf ar Raglen Dysgu yn y Gymru Ddigidol](#)

[Cliciwch yma](#) i ddarganfod mwy am yr wybodaeth ddiweddaraf am gam nesaf Dysgu yn y Gymru Ddigidol a rhaglen waith Llywodraeth Cymru i wella'r defnydd o dechnoleg ddigidol wrth addysgu a dysgu.

[Cyflwyno Google for Education Mewn Ysgolion yng Nghymru y Flwyddyn Nesaf](#)

Cyhoeddwyd y bydd athrawon yn cael mwy o ddewis yn fuan o ran y cyfarpar digidol y maent yn eu defnyddio, o ganlyniad i gyflwyno Google for Education. [Parhau i ddarllen...](#)

Digwyddiadau a Hysbysebion

[Menter Ysgolion y Dreftadaeth Gymreig – 2018](#)

Lansiwyd y Fenter ym 1990, dan nawdd y Sefydliad Materion Cymreig. Y nod yw annog pobl ifanc mewn ysgolion yng Nghymru i ymddiddori mwy yn eu treftadaeth ac yng nghyfraniad eu teuluoedd a'u cymunedau at y dreftadaeth honno. Mae'r Fenter yn cynnal cystadleuaeth flynyddol ar gyfer projectau treftadaeth yn ysgolion Cymru.

Am ragor o fanylion, cliciwch [yma](#).

COFRESTRU CEISIADAU ERBYN: 2 CHWFROR 2018

Swyddi Allanol

Swyddog Prosiect Dros Dro

Am sgwrs anffurfiol gellir cysylltu ag Eleri Llewelyn Owen ar 01286 679671 neu ewch i www.gwynedd.llyw.cymru
Ffurflenni cais a manylion pellach gan Gwasanaeth Cefnogol, Cyngor Gwynedd, Swyddfa'r Cyngor, Stryd y Jêl, Caernarfon, LL55 1SH
Ffôn: 01286 67076

E-Bost: swyddi@gwynedd.llyw.cymru

DYDDIAD CAU: 10.00 O'R GLOCH, DYDD IAU, 14 RHAGFYR 2017

Cyfle i Arbenigwyr Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant ★NEWYDD★

Mae Cymwysterau Cymru yn awyddus i benodi arbenigwyr o amrywiaeth o gefndiroedd i weithio ar gyfres newydd o gymwysterau Lefel 1/2 i Lefel 5.

Gallwch weld rhagor o wybodaeth am rôl yr arbenigwyr ar [wefan Cymwysterau Cymru](#).

I wneud cais, [cliciwch yma](#) a theipiwch 'OCT219156' yn y maes chwilio am gontractau.

DYDDIAD CAU: 8 IONAWR 2018

Swyddfa GwE Yr Wyddgrug

O ddydd Mercher, 6 Rhagfyr 2017, bydd Swyddfa GwE yr Wyddgrug yn Linden House, Parc Busnes Yr Wyddgrug.

Gweler isod y manylion ar gyfer y swyddfa newydd:



Swyddfa GwE, Linden House, Parc Busnes Yr Wyddgrug, Ffordd Wrecsam, Yr Wyddgrug, CH7 1XP



01352 744600

Cofiwch ddilyn @GwEGogleddCymru ar Twitter

GwEGogledd.Cymru

Am ragor o wybodaeth, ewch i'n [gwefan](#)

